

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Quayside Medical Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd rhywfaint o oedi wrth i'r adroddiad gael ei lunio mewn ieithoedd a fformatau amgen ar gais er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn cyflawni ein gwaith lle mae hynny bwysicaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Quayside Medical Aesthetics ar 30 Mawrth 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael lefel dda o ofal yn Quayside Medical Aesthetics. Roedd trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, gan roi sylw dyledus i'w cydraddoldeb a'u hawliau. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn y lleoliad yn rhoi gwybodaeth glir a chryno iddynt cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel cleifion. Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth gan gleifion yn foddhaol ac roedd y trefniadau ar gyfer cynllunio gofal yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol
- Roedd y trefniadau cynllunio gofal a chydysynio yn gadarn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom leoliad glân, taclus a threfnus a oedd yn cael ei gynnal i safon dda. Roedd y lleoliad yn darparu triniaethau drwy ddefnyddio peiriannau a oedd wedi cael eu gwasanaethu'n briodol gan gontractwyr ac yn cael eu defnyddio gan staff a oedd yn cynnal prosesau calibradu a glanhau yn rheolaidd. Roedd y triniaethau a oedd yn cael eu darparu yn cael eu rhoi mewn ffordd ddiogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â chofnodion cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn haws eu dilyn a'u bod yn nodi'r cyfrif dosau.

Mae'r trefniadau diogelu yn cefnogi cleifion agored i niwed ac roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u rôl i ymateb i bryder diogelu. Roedd digon o gyfarpar diogelu personol ar gyfer gweithredwyr yn y lleoliad, a gwelsom fesurau rheoli heintiau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac roedd swyddogion cymorth cyntaf a oedd wedi cael hyfforddiant ar gael. Roedd y trefniadau diogelwch tân yn addas ar y cyfan, ond gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gofnod i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod ymarferion tân blynyddol yn cael eu cynnal a bod cofnodion cadarn yn cael eu cadw
- Rhaid cofnodi cyfrif dosau yng nghofnodion y cleifion a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn hawdd ei dilyn a'i deall.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau diogelwch ar gyfer y peiriant laser yn gadarn
- Roedd y lleoliad yn lân, yn daclus ac yn drefnus
- Roedd gwiriadau calibradu yn cael eu cynnal ac roedd y peiriannau laser yn cael eu glanhau fel mater o drefn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn foddhaol, ond nodwyd gennym fod angen i'r lleoliad ddechrau llunio cofnodion cyfarfodydd. Roedd polisiâu clir a chynhwysfawr ar waith i roi canllawiau i'r staff, gan gynnwys polisi cwynion a pholisi hyfforddiant. Gwelwyd bod y prosesau ar gyfer sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus yn briodol. Fodd bynnag, gwelsom y gellid gwneud gwelliannau i'r system ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn y lleoliad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dechrau cadw cofnodion o gyfarfodydd staff ffurfiol
- Rhoi system monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth a chwynion gan gleifion yn briodol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a'r sylwadau gan gleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Ymhlith rhai o'r sylwadau a gawsom roedd y canlynol:

“Popeth yn wych.”

“Clinig proffesiynol a chyfeillgar iawn.”

“Mae'r staff yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Mae'r adeilad yn hen ond mewn cyflwr da. Rwyf yn fodlon ers i mi ddechrau dod fel claf yn 2022.”

Urddas a pharch

Roedd ymgynghoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal mewn ystafell ddynodedig yn y lleoliad. Roedd drws soled i'r ystafell hon a oedd yn cael ei gloi yn ystod triniaethau. Roedd y bleinds a oedd ar ffenestri'r ystafell hon bob amser wedi'u cau. Nid oedd unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei thrafod y tu allan i'r ystafell drin. Roedd pob un o'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal yn ystod eu taith fel claf.

Gellid caniatáu i hebryngwyr ddod i'r ystafell drin, pe gofynnwyd am hynny. Roedd pâr ychwanegol o sbectolau amddiffynnol ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu triniaethau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo i'r cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys trafodaethau am roi'r gorau i smygu a diogelwch rhag golau uwchfioled cyn ac ar ôl triniaeth. Roedd argymhellion ynghylch ffyrdd o fyw y cleifion a chynnal deiet iach a gwneud ymarfer corff yn cael eu trafod â'r cleifion yn ystod ymgynghoriadau. Roedd taflenni gwybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys gwybodaeth i hyrwyddo gweithgareddau corfforol, ar gael i gleifion yn y dderbynfa.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n trafod cyflyrau iechyd neu unrhyw newidiadau amlwg yn iechyd y cleifion, gan eu cyfeirio at wasanaethau gofal iechyd eraill lle bo angen.

Ym mhob un o'r pum cofnod cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn ystod ein harolygiad, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod ffurflen ymgynghori wedi'i llofnodi wedi cael ei chwblhau cyn cynnal unrhyw driniaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion hyn wedi cael eu cydlofnodi gan y gweithredwr laser hefyd; fodd bynnag, nid oedd un o'r cofnodion yn cynnwys y cydlofnod hwn. Rhoddwyd gwybod i ni mai'r gweithredwr oedd yn gyfrifol am hyn ac ni welsom unrhyw enghraifft arall. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi cael ei nodi ar gyfer pob triniaeth yn y cofnodion a welsom. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod yn rhoi cydsyniad wedi'i lofnodi cyn cael pob triniaeth. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cadarnhaodd y cleifion fod y wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am y risgiau, y manteision a'r opsiynau triniaeth gwahanol a oedd ar gael a chostau unrhyw driniaethau. Cytunwyd ar gostau pob cwrs o driniaeth yn ysgrifenedig yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol â'r claf.

Cyfathrebu'n effeithiol a chynllunio a darparu gofal

Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion ar gyfer y lleoliad ar gael yn y dderbynfa. Roedd y ddwy ddogfen hyn wedi cael eu diweddar'u ddiweddar ac roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn uniaith Saesneg. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio gwasanaethau dehonglydd ar gyfer unrhyw glaf a oedd am gyfathrebu mewn iaith arall. Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn yn gyffredinol, ac y gellid hefyd trefnu apwyntiad drwy e-bost neu yn bersonol yn y dderbynfa.

Roedd cofnodion y pum claf y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn nodi bod hanes meddygol yn cael ei wirio cyn pob triniaeth. Gwelsom fod profion croen a phrofion teip croen hefyd yn cael eu cynnal cyn dechrau unrhyw gwrs o driniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael pecyn gwybodaeth cyn dechrau ar unrhyw driniaeth. Caiff risgiau a manteision triniaethau eu trafod â'r cleifion yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol.

Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a welsom yng nghofnodion y cleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi

gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion a gafodd driniaeth lle roedd angen prawf croen arnynt, eu bod wedi cael prawf croen. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a chanllawiau ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y lleoliad, ynghyd â ffyrdd addas o amddiffyn y staff a'r cleifion rhag gwahaniaethu. Amlinellodd y rheolwr cofrestredig enghreifftiau boddhaol o'r ffordd yr oedd y lleoliad yn trin cleifion yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau. Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth ac ymateb iddo. Roedd y lleoliad yn cysylltu'n awtomatig â chleifion ar ôl eu hapwyntiad i ofyn am adborth ar-lein, ac roedd hefyd yn casglu ac yn cofnodi adborth ar lafar. Rhoddwyd gwybod i ni bod ffurflenni adborth papur yn cael eu defnyddio ar adegau ond nad oedd hynny'n digwydd yn rheolaidd. Roedd pob darn o adborth gan gleifion yn cael ei adolygu gan y staff yn syth, ac roedd trosolwg yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn nodi tueddiadau neu themâu allweddol. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gyhoeddi ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol. Cawsom wybod y byddai unrhyw adborth mewn perthynas â gwella'r gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi, ochr yn ochr ag ymateb y lleoliad er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol ohono.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd, Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod amgylchedd diogel yn y lleoliad. Roedd y lleoliad wedi gosod drysau newydd yn y fynedfa yn ddiweddar ac roedd system dau ddrws er mwyn atal unigolion heb awdurdod rhag mynd i mewn yn ystod oriau agor. Mae larymau a system teledu cylch cyfyng wedi'u gosod ar y safle. Roedd yr ystafell laser yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd yr allweddi ar gyfer y peiriannau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd yn ymddangos bod pob rhan o'r lleoliad yn cael ei chynnal a'i chadw i safon dda ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd tystysgrifau diogelwch nwy a thrydan ar gael, ac roedd Profion Offer Cludadwy yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Roedd arwyddion diogelwch tân yn cael eu harddangos, gan gynnwys arwyddion ar gyfer llwybrau dianc a chyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar ynghyd â system larwm tân y lleoliad. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion ymarferion tân. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oeddent wedi cael eu cynnal. Mae ymarferion tân yn ofyniad blynyddol ac wedi'u dylunio i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r llwybrau dianc a'u cyfrifoldebau mewn achos o dân. Mae peidio â chynnal ymarferion yn cynyddu'r tebygolrwydd o anaf pe byddai angen gwagio'r adeilad ac yn golygu bod cyfle cael ei golli i ddysgu gwersi o ymarferion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân blynyddol yn cael eu cynnal a bod cofnodion cadarn yn cael eu cadw.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng. Roedd pecyn cymorth cyntaf y lleoliad yn addas at y diben ac roedd yr holl eitemau ynddo yn gyfredol. Roedd y lleoliad yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig a meddyg meddygol a oedd hefyd yn cael ei gyflogi mewn meddygfa leol. At hynny, roedd nyrsys cofrestredig o feddygfeydd lleol hefyd yn cael eu cyflogi yn y lleoliad. Er nad oedd ar gael yn ystod yr arolygiad, rhoddyd cadarnhad i ni o hyfforddiant cymorth cyntaf yr aelodau hyn o staff yn dilyn yr arolygiad. At hynny, roedd dau aelod o'r staff hefyd wedi'u cofrestru ar gwrs cymorth cyntaf ar ôl yr arolygiad. Anogwyd y rheolwr cofrestredig i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod prosesau priodol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol. Roedd rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith glanhau ac roedd y rheolwyr yn cwblhau archwiliadau fel mater o drefn. Gwelsom

fod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddarparu i'r staff a'i ddefnyddio yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Roedd y prosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi wedi'u nodi'n addas ym mholisi rheoli heintiau'r lleoliad. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC o'r farn bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn bob amser.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu addas ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd y polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu.

Gwelsom hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu i lefel addas. Nid oedd unrhyw driniaethau'n cael eu rhoi i unrhyw un dan 18 oed.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau yn y lleoliad yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Roedd y lleoliad wrthi'n rhoi'r gorau i ddefnyddio un peiriant ac yn cofrestru peiriant laser newydd ag AGIC. Roedd yr holl ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer y peiriant newydd hwn wedi'i sicrhau a byddai'r cais i newid amodau'r cofrestriad ag AGIC yn cael ei gyflwyno maes o law.

Roedd contract addas ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig. Gwelsom gofnodion o adolygiadau blynyddol o'r lleoliad gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac roedd adroddiad cynhwysfawr yn cael ei lunio, a oedd yn cynnwys asesiad risg. Wrth edrych ar y ddogfennaeth ar gyfer dau o'r peiriannau laser, gwelsom fod protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol. Roedd y rheolau lleol ar gyfer y lleoliad yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ymwneud â phob peiriant. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gytuno i'r rheolau lleol.

Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriannau laser, ynghyd â gwiriadau calibradu cyn pob triniaeth. Roedd y cofnodion gwasanaethu ar gyfer y ddau beiriant y gwnaethom eu harchwilio yn foddhaol. Roedd sbectolau amddiffynnol ar gael yn hawdd, roeddent mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn bodloni'r rheolau lleol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad. Roedd pob gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant craidd gwybodaeth.

Gellid cloi'r ystafell laser ac roedd arwyddion priodol ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal yn yr ystafell. Roedd yr arwyddion hefyd yn nodi na ddylid mynd i mewn i'r ystafell pan fyddai triniaethau yn cael eu rhoi.

Gwelsom dystiolaeth yn y sampl o gofnodion pum claf y gwnaethom edrych arnynt fod pob claf wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo ddechrau ar ei driniaethau.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi cael unrhyw adwaith niweidiol ar ôl cael triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau i hwyluso'r broses wella ac i wirio am arwyddion o haint.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y lleoliad i lywio gwelliant parhaus. Roedd archwiliadau glanhau a hylendid yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r lleoliad, ochr yn ochr ag archwiliadau o gofnodion cleifion ym mhob cylch triniaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai'r lleoliad ddarparu datganiad blynyddol i AGIC ar gais.

Rheoli cofnodion

Cofnodion papur oedd yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion ar y cyfan, gyda rhai agweddau ar gofnodion yn cael eu cadw ar system yr oedd angen cyfrinair i'w defnyddio. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Roedd pob cofnod yn cael ei waredu yn unol â pholisïau cadw'r lleoliad.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf ac ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth dda o'r broses cadw cofnodion. Roedd y cofnodion yn cynnwys ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi, yr ardal a gafodd ei thrin, y cyfarpar a ddefnyddiwyd a'r allbwn ynni. Fodd bynnag, ni welsom fod y cyfrif dosau wedi cael ei gofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom. At hynny, er y gallem ddarllen y rhan fwyaf o'r nodiadau yr oedd y gweithredwr wedi'u llunio, nid oedd y rhain bob amser wedi cael eu hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn hawdd ei dilyn.

Gwnaethom annog y lleoliad i ddefnyddio'r templedi yr oedd ganddo eisoes er mwyn cofnodi gwybodaeth mewn ffordd y gellir ei darllen a'i deall yn hawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y cyfrif dosau yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion
- Bod yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi'n glir gan ddefnyddio'r templedi cyfredol ar gyfer cofnodion cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn y lleoliad hwn yn addas ar y cyfan. Rheolwr y lleoliad oedd y pwynt cyswllt ar gyfer pob mater yn ymwneud â staffio a gwelsom fod yr unigolyn yn hyderus yn ei rôl. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond ni welsom dystiolaeth o unrhyw gofnodion ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Mae cofnod ffurfiol o gyfarfod yn galluogi aelodau o staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod i gael y wybodaeth ddiweddaraf a drafodwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer eu cyfarfodydd staff.

Gwnaethom nodi bod tystysgrifau AGIC ar gyfer y lleoliad yn cael eu harddangos ar y wal yn y dderbynfa ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei harddangos hefyd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd rheolwr y lleoliad yn goruchwyllo cwynion gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno a welsom yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o uwchgyfeirio pryderon. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad, ond rhoddodd y broses gwyno a oedd ar waith sicrwydd i ni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff ac y byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yn y llyfr cwynion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom drefniadau addas i recriwtio a sefydlu unrhyw aelodau newydd o staff, gan gynnwys rhestr wirio sefydlu fanwl. Gwelsom fod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, ar wahân i ddau aelod newydd a oedd wrthi'n ymgymryd â'r gwiriadau.

Nid oedd copiâu o ddau eirida yng nghofnodion dau aelod o'r staff. Mae gwiriadau cyn cyflogi coll yn golygu ei bod yn bosibl y bydd cleifion yn dod i gysylltiad â staff nad ydynt wedi ymgymryd â gwiriad cyflawn o'u cymeriad. Cytunodd y lleoliad i gynnal asesiad risg i sicrhau bod y risgiau o wybodaeth goll am gyflogaeth a'r camau lliniaru a gymerwyd gan y lleoliad yn cael eu nodi.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom edrych ar gofnodion pedwar aelod o'r staff a gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w rolau. Er nad oedd y tystysgrifau hyfforddiant diogelu ar gyfer dau aelod o'r staff ar gael ar unwaith,

cawsant eu hanfon i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad. Nid oedd dau aelod newydd o staff, nad oedd un ohonynt wedi dechrau gweithio yn y lleoliad eto, wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, ond roeddent wrthi'n cwblhau'r hyfforddiant hwn.

Nid oedd yn hawdd dod o hyn i rai tystysgrifau, ac nid oedd gan y rheolwr cofrestredig system gadarn ar gyfer monitro tystysgrifau hyfforddiant. At hynny, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, cafodd AGIC anhawster dod o hyd i'r dystysgrif cymorth cyntaf i ddechrau. Gallai tystysgrifau coll neu dystysgrifau nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt heb system fonitro gadarn beri risg bod y staff yn gweithredu heb yr hyfforddiant diweddaraf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

4. Y camau nesaf

Lle byddwn wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth weithredu arnynt, mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaethau cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaethau cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Quayside Medical Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Quayside Medical Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion ymarferion tân. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oeddent wedi cael eu cynnal. Mae ymarferion tân yn ofyniad blynyddol ac wedi'u dylunio i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r llwybrau dianc a'u cyfrifoldebau mewn achos o dân. Mae peidio â chynnal ymarferion yn cynyddu'r tebygolrwydd o anaf pe byddai angen gwagio'r adeilad ac yn golygu bod cyfle cael ei golli i ddysgu gwersi o ymarferion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân blynyddol yn cael eu cynnal a bod cofnodion cadarn yn cael eu cadw.	Rheoliad 26 (4) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bydd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn flynyddol a chaiff y manylion eu cofnodi yn y Cofnodlyfr Diogelwch Tân. Bydd y cofnodlyfr yn cael ei gadw yn y blwch dogfennau sydd wedi'i osod ar y wal ger panel rheoli'r larwm tân.	Peter Hughes	Wedi'i gwblhau erbyn 18/05/26

2.	<p>Ni welsom fod y cyfrif dosau wedi cael ei gofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom. At hynny, er y gallem ddarllen y rhan fwyaf o'r nodiadau yr oedd y gweithredwr wedi'u llunio, nid oedd y rhain bob amser wedi cael eu hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn hawdd ei dilyn. Gwnaethom annog y lleoliad i ddefnyddio'r templedi yr oedd ganddo eisoes er mwyn cofnodi gwybodaeth mewn ffordd y gellir ei darllen a'i deall yn hawdd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod y cyfrif dosau yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion • Bod yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi'n glir gan ddefnyddio'r templedi cyfredol ar gyfer cofnodion cleifion. 	Rheoliad 23 (1)	Mae'r cyfrif dosau yn cael ei gofnodi yn y gwaith papur ar driniaethau ar gyfer cleientiaid unigol.	Peter Hughes	Wedi ei roi ar waith ar unwaith (11/05/26)
----	---	--	-----------------	---	--------------	--

3.	Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond ni welsom dystiolaeth o unrhyw gofnodion ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Mae cofnod ffurfiol o gyfarfod yn galluogi aelodau o staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod i gael y wybodaeth ddiweddaraf a drafodwyd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer eu cyfarfodydd staff.	Rheoliad 20 (2)	Rydym wedi cael cofnodlyfr a byddwn yn ei ddefnyddio i ddogfennu cofnodion cyfarfodydd staff. Gellir dod o hyd i'r cofnodlyfr y tu ôl i ddesg y dderbynfa ac mae ar gael i bob aelod o'r staff.	Peter Hughes	Wedi ei roi ar waith ar unwaith (11/05/26)
----	---	---	-----------------	---	--------------	--

4.	Nid oedd yn hawdd dod o hyn i rai tystysgrifau, ac nid oedd gan y rheolwr cofrestredig system gadarn ar gyfer monitro tystysgrifau hyfforddiant. At hynny, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, cafodd AGIC anhawster dod o hyd i'r dystysgrif cymorth cyntaf i ddechrau. Gallai tystysgrifau coll neu dystysgrifau nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt heb system fonitro gadarn beri risg bod y staff yn gweithredu heb yr hyfforddiant diweddaraf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.	Rheoliad 20 (2)	Mae matrices hyfforddiant wedi cael ei roi ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r matrices hyfforddiant yn dangos y cyrsiau hyfforddiant sydd wedi'u cwblhau, y dyddiad y cawsant eu cwblhau a'r dyddiad dod i ben.	Peter Hughes	Wedi ei roi ar waith ar unwaith (11/5/26)
----	---	---	-----------------	---	--------------	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Peter Hughes

Swydd: Cyfarwyddwr Clinigol

Dyddiad: 11/05/26